


papur



priordy

**WELE'N SEFYLL RHWNG Y MYRTWYDD
WRTHRYCH TEILWNG O'M HOLL FRYD:
ER MAI O RAN YR WY'N ADNABOD
EI FOD UWCHLAW GWRTHRYCHAU'R BYD
HENFFYCH FORE
Y CAF EI WELED FEL Y MAE.**

**Ann Griffiths 1776-1805 Caneuon Ffydd 319
Cwm Rhondda - John Hughes 1873-1932 Caneuon Ffydd 264**

*Dewiswyd gan Siân Axford
Gweler y rheswm am ei dewis y tu mewn*

Rhifyn 335
PAPUR GORFFENNAF / AWST 2020
Rhifyn Dwbl

Nodyn gan ein Gweinidog

Teledu Cristnogol Cymru

www.cristnogaeth.cymru



NEWYDDION DA! Mae gwefan newydd wedi'i sefydlu sy'n cynnwys holl gynnyrch darllediadau Cristnogol Cymraeg Cymru.

Y Parchedig Aled Davies, Chwilog, yw cyfarwyddwr y sianel. Roedd



Aled yn awyddus i ddiogelu'r holl ddarllediadau Cristnogol sydd wedi'u darlledu ar draws Cymru o Sul i Sul yn y cyfnod clo drwy sefydlu'r sianel. Roedd yn ofid *ganddo* "y byddai'r cwbl yn mynd ar chwâl a neb yn gallu dod o hyd i ddim byd ac fe fyddai hynna'n drueni, gan fod deunydd gwirioneddol dda wedi cael ei gynhyrchu ers i'r cyfyngiadau ddod i rym."

Bydd y cynnyrch, sydd wedi cymryd llawer o amser i'w baratoi, ar gael bellach i'w ddefnyddio mewn oedfaon wedi i gynulleidfaoedd fynd nôl i'r eglwysi.

Mae Teledu Cristnogol Cymru yn cynnig pob math o ddeunyddiau - yn eu plith oedfaon, gwersi Ysgol Sul, myfyrdodau, cerddi, emynau a chartwŷn i blant.

Nod creu'r sianel mewn gwirionedd oedd dwyn y gwahanol ymdrechion hyn ynghyd, gan weithredu fel 'hwb' canolog i ymdrechion y gwahanol eglwysi a mudiadau Cristnogol yng Nghymru. D rwy ymweld â'r wefan fe ddowch ar draws adran sy'n edrych yn ddigon tebyg i ambell sianel deledu poblogaidd fel yr iplayer gan y BBC neu S4Clic.

Ar hyn o bryd, mae yna wyth adran wahanol o fewn y sianel, sef: *Oedfaon Cyflawn, Y Beibl, Plant ac Ieuencid, Mawl, Newyddion a Ffeithiol, Gweddi a Myfyrdodau*. O fewn yr adrannau hyn fe geir *sianeli* gwahanol.

Drwy ymweld a'r adran *Oedfaon Cyflawn* er enghraifft, ceir 28 sianel, sef gofalaethau sy'n rhannu oedfaon ar *YouTube*. Ac yno, yn eu plith mae sianel ein gofalaeth ni.



Yn yr adran *Mawl* ceir pedair sianel, sef *emynau traddodiadol, caneuon cyfoes ysbrydol* mwy diweddar, sianel o *ganeuon plant* a *charolau*.

Yn yr adran *Plant ac Ieuencid* mae yna sianel *cartŵns Beiblaidd*, sianel o *wersi ysgol Sul*, sianel *stori a chrefft*, heb sôn am sianel yn llawn *sgyrsiau ar gyfer pobl ifanc*.

Mae hwn yn wasanaeth cwbl rad ac am ddim wrth gwrs, ac eisoes mae dros 700 o eitemau Cristnogol Cymraeg ar gael i'w gwyllo ar unrhyw adeg.

NEWYDDION DA yn wir mewn cyfnod digon gofidus a dryslyd. Diolch am y weledigaeth, ac adnodd gwerthfawr tu hwnt i eglwysi Cymru.

Gweddiwn

Arglwydd graslon,
gwireda ein ffydd,
cyflawna'n breuddwydion,
rhagora ar ein deisfyiadau.
Trwy'r gŵr a fu gynt dan hoelion,
Amen



Pennar Davies (1911-96)



**DAW LLANW WEDI'R TRAI
DAW ENFYS WEDI'R GLAW**

Mis Mehefin	Darlleniad
Wythnos 1	Salm 45: 10-17
Wythnos 2	Salm 119: 105-112
Wythnos 3	Salm 139: 1-12
Wythnos 4	Salm 128
Wythnos 5	Salm 17: 1-7, 15
Wythnos 6	Salm 105: 1-6, 16-22
Wythnos 7	Salm 133
Wythnos 8	Salm 124
Wythnos 9	Salm 105: 1-6, 23-26, 45b

MIS AWST

Mae'n fwriad gennyf (treio!) gael hoe o fy ngwaith yn ystod mis Awst yn ôl fy arfer gan obeithio paratoi oedfaon ar gyfer y mis o flaen llaw. Bydd yr un drefn ag arfer yn bodoli yn ystod y mis felly. Os oes argyfwng yn codi, cysylltwch â'r canlynol, os gwelwch yn dda:

Alun Charles (Y Priordy) 01267 236037 neu 07813 716062
 Marlene Jones (Cana) 01267 237592 neu 07528 454834
 Joanne Richards (Bancyfelin) 01267 211520 neu 07412 254929

Ni fyddaf yn derbyn galwadau ar fy ffôn symudol personol yn ystod mis Awst. Diolch yn fawr iawn i chi am eich cydweithrediad.

Beti-Wyn



Dydd Sul 7 Mehefin 2020

Roedd y gwasanaeth dan ofal ein Gweinidog gydag Elin Wyn yn cynorthwyo. Canolbwyntiodd ein Gweinidog yn ei myfyrdod ar gomisiwn olaf Iesu i'w ddisgyblion ym mhennod olaf Efengyl Mathew: *'Ewch gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân. A dysgu iddynt gadw'r holl orchmynion a roddais i chi.'* Nododd mai Comisiwn gan Dduw drwy Iesu yw hwn, ai fod yn cwmpasu'r byd ac yn para hyd byth. Mae'n Gomisiwn anturus a'r un mor berthnasol i ddisgyblion Iesu heddiw ac yn galw ar bob un ohonom i ddyfalbarhau i geisio cyflawni cynllun a gweledigaeth Duw ar gyfer ein byd. Bu geiriau'n Gweinidog yn gyfrwng pwrpasol i'n harwain at y cydgymuno.

Dydd Sul 14 Mehefin 2020

Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan ein Gweinidog gyda Trefina Jones (Bancyfelin), Rachael Garside (Cana) ac Alun Charles (Y Priordy). Cawsom wrando ar folawd Paul i Gariad, un o ddarnau mwyaf gogoneddus y Beibl. Mae cariad Duw'n cwmpasu pob un ohonom yn ddiwahân a'n credo ni fel Cristnogion yw bod gwasanaethu a charu eraill - fel y gwnaeth Iesu ei hunan drwy'i farwolaeth a'i atgyfodiad - yn ganolog i'n ffydd. I ba raddau felly ry'n ni'n gwneud hynny ac yn adlewyrchu cariad Duw yn ein bywydau yn ystod y pandemig? Mae llawer iawn iawn wedi dangos cariad Duw yn Iesu drwy'r hyn maen nhw'n ei wneud. Ond mae mwy i'w wneud eto gan fod gormod o bobl yn byw mewn byd *'ble mae'r gwarth o dlodi, anghyfartaledd ac anghyfiawnder yn parhau'*.

Dydd Sul 21 Mehefin 2020

Gwler adroddiad mewn man arall yn y Papur.

Dydd Sul 28 Mehefin 2020

Roedd y gwasanaeth yng ngofal ein Gweinidog ac Elin Wyn a gyflwynodd y darlenniad, sef rhan o'r Bregeth ar y Mynydd yn Efengyl Mathew sy'n cynnwys Y Gwynfydau. Arweiniodd hyn yn naturiol at fynd am dro o gwmpas tref Caerfyrddin, drwy gyfrwng ffilm, nid i syllu ar gofobau mawr eu maint, fel un Syr Thomas Picton, gŵr sydd dan gwmwl oherwydd ei ymwneud â chaeswasiaeth, ond i weld, gyda chymorth Ap Heolydd Heddwch, gofobau llai yn ein tref sy'n nodi'r cyfraniad enfawr a wnaeth sawl person dros heddwch, rhyddid a chyfiawnder yn enw Iesu Grist, Tywysog Tangnefedd. Cafodd pob un o'r bobl hyn eu symbylu gan Ffordd Cariad, fel y caiff ei chrynhof yn y Bregeth ar y Mynydd, i weithio dros Iesu drwy ymdrechu i orseddu cyfiawnder a thangnefedd a thegwch yn ein gwlad a'n byd. Ein dyletswydd ninnau heddiw hefyd yw ymdrechu yn yr un modd drwy osod gwerthoedd Crist yn flaenaf yn ein bywyd. Diolch am wasanaeth mor effeithiol ac am ffilmio arbennig o gelfydd a chain.

Gwasanaeth Sul y Tadau 21 Mehefin 2020



O herwydd y sefyllfa sydd ohoni, ar y bore Sul arbennig hwn, fel pob bore Sul arall ers misoedd bellach, ysywaeth, roedd y capel yn wag. Ond y tebygolrwydd yw y byddai'r rhai a 'diwniodd i mewn' i wyllo neu wrando ar yr oedfa hon wedi mwya llenwi'r capel. Dyna fesur i chi o boblogrwydd ac ansawdd y gwasanaethau mae Beti-Wyn wedi bod yn eu darparu'n wythnosol drwy gydol y cyfnod anghyffredin hwn, a diolch o galon iddi am bob dim mae wedi'i wneud i'n cynnal ni i gyd.

A hithau'n Sul y Tadau, roedd yr oedfa yng ngofal Beti-Wyn gyda chymorth rhai o dadau a thad-cus eglwysi'r ofalaeth, sef Winsor (Bancyfelin), Michael (Cana) ac Iwan, Sulwyn, Huw, Rhydian a Dewi (Priordy). Roedd holl gynnwys yr oedfa'n ymwneud â chariad tadol, a'r Salm a ddarllenwyd yn nodi fel y mae tad yn tosturio wrth ei blant, felly hefyd mae'r Arglwydd yn tosturio wrth y rhai sy'n ei ofni. Mewn cyflwyniad difyr a phwrpasol, fe'n hatgoffwyd pa mor bwysig ydyw ein bod yn diolch am gefnogaeth tad, am gariad teulu ac am gariad Duw. Ategwyd hynny yn y weddi bwrpasol a ymrannai'n ddwy ran, y naill yn diolch am ofal, arweiniad a chariad ein tadau sydd o'n cwrpas ar y ddaear, a'r llall yn diolch am gariad diderfyn Duw ein Tad yn y nefoedd.

Byrdwn neges Beti-Wyn oedd bod Duw yn dad i ni a ninnau'n blant i Dduw. Fe sydd wedi ein creu a'n cynnal, ac mae rhan o Dduw ynom ni. Mae Ef wedi rhoi i ni'r gallu i garu, ac arfer doethineb a rheswm. Yn yr Hen Destament dywedir fod Duw **fel** tad, ond yn y Testament Newydd dywedir ei fod **yn** Dad i ni, ac mae Iesu Grist, yn ddieithriad bron, yn cyfeirio at Dduw fel Tad. Fe ddysgodd ei ddisgyblion i gyfarch Duw â'r geiriau "Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd" ac rydyn ni'n parhau â'r arfer hwnnw hyd heddiw. Mae Duw yn Dad i ni i gyd, ac mae'n derbyn pawb yn ddiwahân. Ac wrth i ni weddio "Ein Tad", rydyn ni'n derbyn bod pobl eraill, pwyl bynnag ydynt, yn frodyr ac yn

chwiriorydd i ni, y tu hwnt i liw a hil, gwybodaeth ac anwybodaeth, daioni a drygioni. Dyna neges amserol iawn yn dilyn digwyddiadau diweddar, a gwers bwysig ar gyfer ein byd ni heddiw.



Aeth Beti-Wyn yn ei blaen i ofyn beth yw nodweddion tadolaeth Duw, gan ganolbwyntio ar dair agwedd. Yn gyntaf, mae Duw yn agos atom. Mae yma yn ein canol, a daeth i'n plith yn ei fab Iesu Grist. Yn ail, mae Duw yn Dad sy'n gofalu amdanom ni i gyd beth bynnag yw ein cyflwr a'n hymddygiad. Fel mae bugail yn adnabod ei ddefaid, felly hefyd mae Duw yn ein hadnabod ni ac yn estyn ei ofal bugeiliol drosom, pw y bynnag yr ydym. Trydedd nodwedd tadolaeth Duw yw ei fod yn Dduw sy'n tosturio, yn rhywun i droi ato ac nid rhedeg i ffwrdd oddi wrtho. Wrth i ni ddiolch i'n tadau daearol ar y Sul arbennig hwn a diolch am Dduw ein Tad nefol, heriodd Beti-Wyn ni i ymwroli o'r newydd i weithio yn ei enw, fel y gwneir ei ewyllys ar y ddaear fel yn y nef.

Yn ystod yr oedfa cafwyd dwy eitem gerddorol hyfryd gan Iwan ar ei sacsoffon, a chafwyd tri emyn hwyliog a phoblogaidd i godi calon, gan gloi'n briodol iawn gyda'r emyn 'Dad dy gariad yn glir ddisgleiria'. Diolch eto i Beti-Wyn ac i bawb wnaeth gymryd rhan am oedfa gofiadwy.



PANED DROS ZOOM

Diolch i bawb sydd wedi ymuno â ni am baned dros Zoom. Roedd yn hyfryd i'ch gweld. Mae'r cyfarfodydd nesaf fel a ganlyn:

Bore Mercher, 15 Gorffennaf am 11
Bore Mercher, 29 Gorffennaf am 11



Bydd links yn dod mas atoch yn nes at yr amser

AR Y WE: www.priordy.org (yn cynnwys Papur Priordy)

BANC BWYD CAERFYRDDIN



Byddwn yn casglu nwyddau at Fanc Bwyd Caerfyrddin ar **Ddydd Sul, 12 Gorffennaf 2020**. Os ydych yn dymuno cyfrannu, rhwch y nwyddau y tu allan i ddrws ffrynt eich cartref erbyn 12 o'r gloch ar 12 Grffennaf (ganol dydd) ac fe fydd un ohonom yn dod i'w casglu.

PWYSIG

Wnewch chi roi gwybod i'r gweinidog ymlaen llaw os ydych yn dymuno cefnogi, os gwelwch yn dda, er mwyn iddi wybod ym mha gyfeiriadau y bydd angen iddi alw. Ymddiheuriadau os na fydd yn medru cnocio'r drws!

Apeliwn am eich cefnogaeth.

Mae'r banc bwyd yn allweddol yn ystod y cyfnod hwn.

COFIO AM DEULU'R Tŷ CAPEL



Cyflwynwyd hamper o lysiau a ffrwythau i Ahmed a'i deulu yn y Tŷ Capel fel arwydd ein bod yn cofio amdanynt yn ystod y cyfnod clo hwn.

Diolch i'r grŵp sydd wedi bod yn eu bugeilio.



CWIS AM SIR DYFED



Wrth geisio cael trefn ar yr holl lyfrau sydd o gwmpas y tŷ adeg cyfnod y caethiwed, fe ddes i ar draws y llyfryn diddorol *Dyfed Quiz*, gan y cyn lyfrgellydd *E Lloyd Hughes*, sef 500 o gwestiynau ac atebion am yr hen sir Dyfed.

Dyma fi felly'n rhannu rhai o'r cwestiynau gyda chi gan ychwanegu ychydig sylwadau at ambell un o'r atebion sydd ar dudalen 44.

1	Enwch y capel yn Sir Gaerfyrddin sydd â'i enw'n cynnwys dydd o'r wythnos.
2	Ble, yn agos iawn at Gapel y Priordy, roedd Pafiliwn yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd yng Nghaerfyrddin ym 1867?
3	Ym mha stryd yng Nghaerfyrddin mae yna blac ar yr adeilad sy'n nodi ' <i>St. Peter's Pharmacy Established 1869</i> '?
4	Enwch yr argraffydd a gyhoeddodd ei <i>Welsh-English Dictionary</i> ym 1848, a'i <i>English- Welsh Dictionary</i> ym 1850.
5	Ai gwir y ffaith mai y Parch H Elvet Lewis (Elfed) oedd yr hynaf o bump o blant?
6	A yw'r ffaith i ŵr o'r enw Evan Williams farw yn Nhloty Caerfyrddin ym 1781 yn 130 oed yn wir?
7	Ble mae 'Bull Lane' a 'Conduct Lane'?

8	Ble claddwyd 'Group Captain Ira Jones,' DSO, MC, DFC, MM a ymladdodd fel peilot yn y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail?
9	Bu digwyddiad trist wrth ailgodi Capel Cwmdwyfran ym 1860. Beth ddigwyddodd?
10	Ble yn ymyl Caerfyrddin roedd Coleg Crist cyn iddo gael ei symud i Aberhonddu?

Gwenan Haf Jones

CWIS PIP

Prynhawn dydd Mercher, 3 Mehefin 2020 fe gynhaliodd ein Gweinidog, Beti-Wyn, gwis hwylus a llawn mwynhad ar gyfer plant a phobl ifanc y Priordy. Dyma'r ail gwis i ni gael ar Zoom, ac roedd y deunaw ohonom yn y cwis yn edrych ymlaen yn fawr at gael un arall.



Fe wnaeth Beti-Wyn ein diddanu trwy ofyn cwestiynau ar amryw o themâu gwahanol fel siocled, logos a'i ffefryn Y Beibl. Fe ddysgodd pawb ffeithiau diddorol newydd, yn cynnwys bod



Capel y Priordy yn gallu dal lan i 320 o bobl. Roedd yna ambell i gwestiwn doniol hefyd, fel pwy ddyfeisiodd y tŷ bach!

Enillodd Elis ac Erin Roderick am yr ail

dro - da iawn chi!



Cawsom lawer o hwyl sydd mor angenrheidiol yn y cyfnod anodd yma.

Diolchwn i'r gwisfeistres, Beti-Wyn, am godi calonau pawb trwy gynnal cwis addysgiadol a oedd yn llawn hwyl a sbri. Fe wnaeth pawb joio mas draw. Gobeithio y cawn ni un arall cyn bo hir.

NEWID BYD

Ym Mecsico ddylwn i fod ar hyn o bryd, ond roedd rhaid ffoi a dod yn ôl i Gymru fach oherwydd y pandemig COVID-19 (a gorchmynion gan mam a dad!).



Rwy'n ffodus fy mod i wedi cael fy nghroesawu'n ôl i ysbyty Glangwili, i fy swydd fel ffisiotherapydd ar y llinell flaen.

Roedd awyrgylch y gweithle'n dra gwahanol i'r un nes i adael ym mis Chwefror gydag aelodau'r tîm wedi'u gwahanu, amseroedd cychwyn a chinio wedi'u hystyngtu a phawb yn gorfod gwisgo 'PPE' i leihau'r risg o laedaenu'r feirws - fel yn y llun.



Rwyf wedi bod yn gweithio ar y wardiau gyda chleifion sy'n dioddef o'r coronafeirws. Unwaith mae'r doctoriaid yn barnu fod y claf yn ddigon ffit i dderbyn ffisio, fy swydd i yw ceisio'i adfer i gerdded eto a gwneud y pethau oedd yn bwysig iddo'n flaenorol. Mae'r feirws yn effeithio ar y system anadlu gan wneud rhywun yn brin o anadl; mae'r cyhyrau'n wan a'r corff yn blino'n gyflym. Oherwydd natur y feirws, rydyn ni fel tîm yn ceisio gweld y cleifion o leiaf

ddwywaith y dydd - mewn sesiynau byr i leihau'r risg o flinder.

Rydyn ni'n sicrhau bod pobl yn mynd adref yn saff ac unwaith yno bydd y ffisiotherapydd cymunedol yn ymweld â'r cleifion i wneud yn siŵr eu bod yn ymdopi (ar ôl asesiad risg). Gweithio ar anghenion yr unigolyn sy'n bwysig ac mae'n angenrheidiol i ddatblygu cydberthynas â'r claf i gael y canlyniad gorau.

Mae wedi bod yn gyfnod o straen i bawb yn y gymuned ac yn yr ysbytai ond mae pethau positif wedi dod ohono. Rydyn ni'n gwerthfawrogi'r holl roddion a nwyddau a gawson ni gan y gymuned yn fawr. Mae'n galed i'r cleifion gan nad yw eu perthnasau'n medru ymweld â nhw yn yr ysbyty ac felly bu'r rhoddion hylendid a dderbynion ni gan y Priorddy'n werthfawr iawn -



fel y gwelwch oddi wrth y llun.

Rydyn ni wedi gorfod manteisio ar ddefnyddio technoleg a sesiynau 'skype' gyda theuluoedd i'w diweddaru yngylch sefyllfa corfforol a meddyliol y claf. Mae'n braf gweithio'n fwy agos hefyd â'r tîm amlddisgyblaethol a gweld pawb yn bwrw iddi!

Er gwaethaf yr amser ansicr hwn mae'n rhaid i ni wastad gadw'n bositif a chofiwch y daw eto haul ar fryn!



CWIS TEULU'R PRIORDY – PAPUR MEHEFIN 2020

ATEBION

1	1871	6	Y Parchedig Beti-Wyn James
2	Ebeneser, Abergwili	7	Y Parchedig Ddr Cyril G Williams
3	Y Parchedig L Alun Page	8	Y Parchedig W J Edwards
4	Tywyn, Meirionnydd	9	Seion, Lô-n y Popty, Aberystwyth
5	Y Parchedig T James Jones	10	Y Parchedig E Keri Evans

**CAERFYRDDIN ADEG Y PASG
MWY O ENGHREIFFTIAU DRWY LENS CAMERA
TUDUR DYLAN JONES**



**Marchnad
Caerfyrddin**

Towy Works



Heol Spilman

**Set
Debenhams**



Ac wedi elwch tawelwch fu

PEN-BLWYDD HAPUS MAIR !



**Mair Baston gyda'i rhodd o flodau a dderbyniodd gan y Priordy
drwy'n Gweinidog ar ddydd ei phen-blwydd
yn 90 oed.**

Meleri Llwyd O'Leary.....

Fy niwrnod gwaith...

Nôl ym 1997 ar ôl cwblhau blwyddyn o gwrw
TAR yng Ngholeg y Drindod Caerfyrddin
enillais gymhwyster i fod yn athrawes
gynradd. Ar hyd y blynyddoedd mae'r swydd o
fod yn athrawes wedi newid cryn dipyn ond heb
unrhyw rybudd ac mewn cyfnod byr o rai
wythnosau mae'r newid i fy niwrnod gwaith wedi
bod yn syfrdanol. Bu'n gyfnod dwys ac anodd i bob athro sydd wedi
gorfod addasu'n llythrennol dros nos! Doedd dim un ddarlith na chwrs
yn ystod fy ngyrfa wedi fy mharatoi at y newid hwn!



Nid clywed cloch yr ysgol yn canu am 9 y bore i gyfarch disgyblion ac
eto am 3.30 y prynhawn i ffarwelio â nhw yw'r 'norm' bellach. Does
dim cloch, dim larwm, dim trefn benodol a neb yn gaeth i'r cloc rhagor.
Mae pawb ar ei liwt ei hun yn ceisio dod i rywfaith o drefn ddyddiol neu
'norm' newydd.

Rwy'n dysgu yn Ysgol Pontyberem ac mae wedi bod yn ysgol Hwb ers
dechrau'r cyfnod clo. Mae'n darparu gofal i blant gweithwyr allweddol a
phlant bregus o 8 y bore tan 6 yr hwyr o ddydd Llun tan ddydd Gwener
ac mae plant o chwech ysgol gyfagos yng Nghwm Gwendraeth yn ei
fynychu. Athrawon y chwech ysgol sydd wedi bod yn darparu'r gofal ar
hyd yr amser yn ogystal â chyfnod gwyliau'r Pasg a'r gwyliau banc
diweddar. Felly rhan o fy niwrnod gwaith fyddai
gweithio dau ddiwrnod yn yr ysgol bob wythnos ar
gyfartaledd rhwng 7.45 y bore ac 1 y prynhawn
neu 1y prynhawn tan 6 yr hwyr. Yn fy nghyfnod
yn yr Hwb bach iawn o weithgareddau penodol
rydyn ni wedi gallu'u cyflawni gyda'r plant gan
nad oes hawl rhannu adnoddau o gwbl. Felly
mae pob plentyn wedi cael hambwrdd unigol
gydag offer ysgrifennu a lliwio personol iddyn
nhw a phopeth wedi'i labelu. Dyw hi ddim yn bosib chwarae Lego, clai,
tywod na'r twba dŵr. Dim gêmâu bwrdd na llawer o weithgareddau
crefft, felly cyfyngedig iawn yw'r hyn rydyn ni wedi gallu'i wneud gyda'r
plant. Un peth sydd yn rhwydd i'w weithredu yw helpu'r plant i gyflawni
gwaith gan yr ysgolion ar y system addysg 'Hwb' ar luniaduron



Platfform yw 'Hwb' ble gall athrawon osod a marcio gwaith eu disgyblion ar lein. Ond anodd iawn yw ceisio helpu plentyn i gyflawni gwaith sydd ar sgrîn fach a bwlch o ddau fetr rhyngon nii!!! Ac yn aml bach iawn o chwant gweithio oedd ar y plant!!!

Yn ogystal â mynychu'r Hwb yn yr ysgol mae'n rhaid i ni athrawon baratoi gwaith wythnosol i'r disgyblion gartref. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, celf a her arbennig bob wythnos a'r cyfan wedi'i wahaniaethu o ran gallu'r plant. Mae'n cymryd amser sylweddol i baratoi'r gweithgareddau, casglu'r deunydd a'i osod ar y system yn ddigidol yn barod i'w uwchlwytho ar system Hwb bob bore dydd Llun. Rydw i hefyd yn ffilmio fy hun yn cyflwyno neges fach i'r plant cyn trafod pob un dasg ac yn egluro gofynion y gweithgareddau a'r hyn sy'n ddisgwyliedig gan y plant. Rwyf wedi eistedd trwy sawl sesiwn 'webinar' (hy. cyrsiau byw arlein sy'n dangos cam wrth gam sut mae cyflawni amrywiaeth o bethau'n ddigidol) a dysgu llawer iawn am addysgu digidol mewn cyfnod byr!! Ar ôl gosod y gwaith mae'r plant yn mynd ati i'w gyflawni yn ystod yr wythnos. Does dim dal pryd daw'r gwaith i mewn arlein, felly rhaid marcio'n gyson trwy gydol y dydd. Bydd plant hefyd yn ebostio neu'n danfon neges gyda chwestiynau neu broblemau ac mae'n rhaid i mi fod ar gael i ymateb yn brydlon fel eu bod yn gallu parhau gyda'u tasgau. Gan nad oes modd cyfathrebu wyneb wrth wyneb mae'r cyswllt hwn yn hollbwysig yn y broses addysgu.



Byddaf yn treulio gweddill fy amser yn ymateb i ebyst a chwestiynau rhieni, yn mynychu dau gyfarfod staff wythnosol arlein ar system Microsoft teams ac yn ffonio rhestr o blant i gael sgwrs â nhw. Mae'n ofynnol i ni roi galwad ffôn i blant bregus ein dosbarth bob wythnos a chadw cofnod o bob galwad a'r sgwrs a gafwyd er mwyn sicrhau bod y plant hyn yn derbyn bob cefnogaeth. Rydw i'n ffonio wyth plentyn bob wythnos i gael sgwrs â nhw a'u rhieni i gynnig unrhyw help ychwanegol. Yn amlwg wedyn rhaid ymateb i'r galw a pharatoi unrhyw ddeunydd neu gymorth ychwanegol iddyn nhw.

Dyw fy niwrnod gwaith i ddim yn dilyn amserlen benodol bellach!

Does dim un diwrnod yr un peth ac rwy'n dysgu rhywbeth newydd bob dydd. Felly mae fy niwrnodau gwaith yn gyfuniad o gyfarfodydd, danfon negeseuon, ffonio plant, marcio a gosod gwaith a mynychu'r Hwb. Un peth sy'n glir, byddai cyflawni'r holl bethau hyn yn gwbl amhosib heb y datblygiadau digidol aruthrol sydd wedi bod dros y blynyddoedd. Nid oedd y rhain hyd yn oed yn bodoli pan ddechreuais ar fy ngyrfa! Er yr holl deimladau negyddol sydd wedi bod am effaith y we a'r cyfryngau cymdeithasol ar blant a phobl ifanc, hebddynt byddai cyfathrebu a dysgu o bell wedi bod gryn dipyn yn anoddach. Mae fy niwrnod gwaith yr un mor brysur os nad yn fwy prysur nag erioed! Mae'r sefyllfa'n newid yn ddyddiol. Pwy a wŷr beth sydd o 'mlaen a beth fydd fy niwrnod gwaith erbyn mis Medi!



BORE COFFI McMILLAN

Yn rhan o Fore Coffi Mwya'r Byd

Dydd Gwener 25 Medi 2020

Newyddion Da – fe fydd digwyddiad ond bydd hwnnw'n wahanol i'r arfer!!

Nodwch y dyddiad felly, os gwelwch yn dda, a chadwch olwg am y trefniadau!



DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

ALUN CHARLES

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn

**Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin?
Trowch at: cyfundeb.com**



DEWIS ORGANYDDION Y PRIORDY



Mae Organyddion y Priordy'n gosod naws arbennig i'n haddoli o Sul i Sul drwy ddethol a chanu darnau pwrpasol o gerddoriaeth ar yr organ cyn i'r oedfaon ddechrau. Mae hynny, wrth gwrs, yn ychwanegol at gyfeilio i'r emynau yn ystod yr oedfaon eu hunain. Rydyn ni'n gwerthfawrogi cyfraniad pob un o'r organyddion yn fawr iawn ac yn ddiolchgar iddyn nhw am eu gwaith cydwybodol.

Ond tybed at ba ddarn o gerddoriaeth maen nhw'n troi ato wrth ymlacio yn ystod y meudwyo mawr? Tybed pa ddarn sy'n apelio atyn nhw a pham? Wel dyma ofyn i'r saith! Diolch iddyn nhw am ymateb i'r cais a gobeithio hefyd y byddan nhw yn ôl wrth yr organ yn y Priordy cyn bo hir iawn!

RHIAN EVANS	
--------------------	---

Un o'r gweithiau cerddorol yr oeddem yn ei astudio ar gyfer Lefel 'A' oedd yr amrywiadau ar Gorale St. Anthony gan Brahms. Hwnnw oedd un o'r recordiadau finyl cyntaf i mi ei brynu. Roeddwn wedi dotio ar yr alaw a chyn pen fawr o dro roeddwn yn ei chwarae ar y piano ac yna fe'i cyflwynais ar yr organ cyn yr oedfa. Rwyf yn hoff iawn o'r darn a phan ofynnodd Bronwen a Henry Wilkins i mi chwarae'r organ yn eu priodas yng Nghapel Horeb, Rhydargaeau, hwn a ddewiswyd fel ymdeithgan.

EIRA PHILLIPS	
----------------------	---

Un darn o gerddoriaeth rwy'n hoff iawn ohono yw Llety'r Bugail gan Eleri Owen. Byddaf yn ei chwarae bob tro yn y Priordy ond nawr yn ystod y clo mawr rwyf wedi cael organ drydan fach newydd a byddaf

yn ei chwarae'n ddyddiol yn ogystal ag alawon cerdd dant eraill, yn bennaf am eu bod yn rhwydd i'w chwarae.

IWAN EVANS	
-------------------	---

Er mwyn ymlacio dwi'n chwarae jazz ar fy sacsoffon (Summer Samba, Blue Bossa), gwerin ar yr acordion (set Machynlleth), neu ganeuon James Taylor ar y piano. Mae'r byd wyneb-i-waered ar hyn o bryd. Tra bo 'middle C' yn y man iawn mae popeth arall yn cwmpo i'w le.

JANET DAVIES	
---------------------	---

Ryn ni yng Nghymru'n ffodus iawn fod gwledd o gerddoriaeth a chanueon ar ein cyfer yn yr iaith fain a'r iaith gain. Fy hoff gcerddoriaeth heb amheuaeth yw trefniant organ R. Vaughan Williams o'r emyn-dôn Rhosymedre - *O nefol Addfwyn Oen*. Cefais wersi organ gan y diweddar Charles Clements, organydd capel Seiloh, Aberystwyth, ac roedd e hefyd yn cyfrif y trefniant hwn yn o'i ffefrynnau.

HEATHER WILLIAMS	
-------------------------	---

Rwyf wedi dewis yr emyn-dôn Theodora gan Alfred Legge am ddau reswm. Mae geiriau'r penillion (*Gwawr wedi hirnos cân wedi loes*) yn

berthnasol iawn yn ystod yr amser pryderus hwn i ni i gyd a hefyd yn bersonol i fi oherwydd dyma'r emyn a ganwyd yng nghynhebrwng fy Mam ar ôl iddi ddioddef afiechyd creulon.

MEINIR HUGHES GRIFFITHS



Pan dw i'n mynd at y piano, byddaf fel arfer yn chwarae amrywiaeth o ddarnau ac alawon. Ond, mae un ffefryn pan ddaw fy nhro i chwarae'r organ yn Y Priorddy yn nhymor y gwanwyn, sef 'Y Gwanwyn Olaf' (*Last Spring*) gan Edvard Greig, y cyfansoddwr o Norwy. Mae'n alaw sydd mor adeiladol ac yn dod i uchafbwynt wrth weld tyfiant newydd natur ar ôl llymder y gaeaf.

ANGHARAD WYN



Dw i wrth fy modd yn "toncan" wrth y piano a gallwn i dreulio oriau yn mynd o un llyfr cerddoriaeth i'r llall. Ond Greta fach sy'n dueddol o ddewis y gerddoriaeth erbyn hyn, felly hwiangerddi, *caneuon Cwm Rhyd y Rhosyn* neu ffefryn Greta, "*Calon Lân*" sydd i'w clywed yma o ddydd i ddydd!! Un gêm fach dwi'n mwynhau chwarae hefyd yw agor *Caneuon Ffydd* ar hap a throï'r tudalennau gan chwarae un emyn ar ôl y llall... gall y gêm yma bara am amser maith wrth gwrs ond mae hefyd yn ffordd ddiddorol o ddod ar draws ambell dôn newydd sbon!

**Beth am droi at
Wefan yr Undeb?
www.annibynwyr.org**



GAIR O DDIOLCH



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda
University Health Board

Gwasanaeth Ffisiotherapi
Adran Ffisiotherapi
Ysbyty Dydd Priordy
Ysbyty Glangwili
Caerfyrddin

Annwyl Aelodau

Ar ran yr holl staff yn yr adran ffisiotherapi yn Ysbyty Cyffredinol Glangwili, hoffem estyn ein diolch diffuant i chi am eich rhodd hael o bethau ymolchi ar gyfer ein cleifion.

Derbyniwn eich haelioni yn ddiolchgar ac mae wedi mynd yn bell i'n helpu i gyflawni ein rôl yn ein hysbytai ac wedi codi morâl staff o wybod pa mor gefnogol a gwerthfawrogol ydym yng ngolwg y cyhoedd.

Diolch yn fawr o waelod ein calonnau.

Yr eiddoch yn gywir

Angharad Smirigila

Hanna Thomas

Arweinwyr Gwasanaeth Ffisiotherapi



TUDALEN BLAEN

Rheswm Siân Elisabeth Axford dros ddewis yr emyn 'Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd' a'r emyn-dôn Cwm Rhondda....

Dyma un o'm hoff emynau. Mae'r geiriau gan Ann Griffiths (1776 – 1802) o Ddolwar Fach. Mae'n gân serch i Dduw, yn hiraethu amdano, ac am fod yn bur ac yn ffyddlon iddo. Credir i'r emyn gael ei ysgrifennu yn dilyn pregeth gan John Parry gyda Caniad Solomon 5:10 yn destun - *'Fy anwylyd sydd wyn a gwridog, yn rhagori ar ddengmil'*.



Rydyn ni'n clywed emyn Ann Griffiths amlaf ar yr emyn-dôn Cwm Rhondda o waith **John Hughes (1873-1932)**. Cafodd ei eni yn Nowlais a'i fagu yn Llanilltud Faerdref, Pontypridd. Ar gyfer cyfarfodydd dathlu Capel Rhondda, Pontypridd ym 1907 y cyfansoddwyd y dôn. Newidiwyd yr enw o Rhondda i Cwm Rhondda ar awgrym yr arweinydd Harry Jones, Dowlais, gan fod tôn



arall yn dwyn yr enw Rhodda ar gael – o waith M O Jones (Caneuon Ffydd: 580).

Am nifer o resymau mae'r gair **cwm** yn agos iawn at fy nghalon. Cefais fagwraeth ddwyieithog yng Nghwm Gwendraeth ar lannau'r afon Gwendraeth yng Nghydsweli a Phontyberem. Priodais ŵr o Gwm Nantyglo yng Nghymoedd Gwent. Yn ffodus, cefais y fraint o deithio ac ymweld ag ysblander hydrefol Cwm Hyfryd, Esquel ar waelod mynyddoedd Yr Andes. Pan ymgartrefais yn fy ail gartref teuluol naw mlynedd yn ôl roedd y golygfeydd godidog yn fy atgoffa o'r **Cwm** ac enwais ein cartref yn **'Cwm Hyfryd'**.

Guide me, O Thou great Jehofa (Caneuon Ffydd: 948) o waith William Williams Pantycelyn yw'r geiriau poblogaidd ar Cwm Rhondda yn yr iaith Saesneg. (*Arglwydd arwain drwy'r anialwch*) yn Gymraeg (Caneuon Ffydd: 702). Yn aml gelwir y dôn a'r emyn yn **'Bread of Heaven'** oherwydd llinell sy'n cael ei hailadrodd yn y Saesneg.

Rwyf wedi bloeddio canu'r emyn-dôn mewn nifer o wasanaethau, cyngherddau, achlysuron arbennig ac ar Barc yr Arfau, Caerdydd, ar Barc y Strade, Stadiwm y Milleniwm sydd bellach yn Stadiwm y Principality ac o dop Rhewlif Perito Moreno, El Calafate De America! Mae uniaethu â'r Cwm wastad yn fy atgoffa o Cwm Rhondda ac yn codi balchder a hiraeth ynof. Mae'r emyn-dôn wedi'i disgrifio fel anthem genedlaethol answyddogol Cymru. Hyderaf y caf floeddio canu'r emyn-dôn yn y dyfodol agos ond tan hynny bydd rhaid setlo am ardd **'Cwm Hyfryd'**.

Covid-19 yn achosi newidiadau i fy amgylchiadau gweithio


Gwn fod sefyllfa gwaith pob un ohonom wedi newid yn syfrdanol ers dechrau'r cyfnod clo, ond dwi'n meddwl bod fy swydd fel athrawes wedi bod yn heriol ar y naw, gan nad plant a phobl ifanc awyddus, cydwybodol ac efallai styfnig a heriol yn achos rhai sydd o fy 'mlaen, ond wyneb y *laptop* sydd wedi dod yn dipyn o ffrind i mi erbyn hyn. Be fyddwn i'n neud hebddo dywedwch?



Dwi'n dibynnu arno am gymaint o bethau, ond yn gyntaf dw i'n ei ddefnyddio i lwytho gwersi dyddiol ar '*Google Classroom*' sydd yn fy nghaniatáu i gadw cysylltiad â fy nosbarthiadau er mwyn marcio gwaith pan fydd angen ac i ymateb i unrhyw bryderon sy'n codi o safbwynt y disgyblion. Dw i'n gobeithio bod ymateb nöl gyda '*Paid â phoeni*', '*Tria dy orau*', '*Gwna be ti'n gallu*' yn gymorth i gysuro'nu teimladau dryslyd ar y foment.



Roedd wythnosau cyntaf y cyfnod clo yn reit bryderus o ran ceisio sicrhau cydbwysedd gwaith cywir i'r disgyblion a pheidio â'u gorlwytho gyda thasgau rhy heriol gan nad ydynt yn medru gofyn i mi'n uniongyrchol am gymorth. A gyda'r tywydd wedi bod mor braf yn ystod mis Ebrill a Mai, doeddwn i ddim yn disgwyl i'r disgyblion fod yn eistedd o flaen eu *laptops* drwy'r dydd. Erbyn hyn, dw i a'r disgyblion wedi darganfod ryw lwyfandir gweithiol sy'n ein siwtio ni i'r dim. Dw i'n gosod tasgau, ma' nhw'n ymateb yn bositif i'r gwaith ac yna'n derbyn sylwadau neu farciau am eu hymdrechion. Dw i heb eto fynd gam ymhellach a chreu fideo o'r gwersi er mwyn eu llwytho ar '*Google Classroom*', ond efallai daw'r cyfle i arbrofi gyda hyn yn y dyfodol agos.



Yr ail reswm dw i angen y *laptop* yw i gynnal cyfarfodydd dros '*Teams*', sef fideo gynadledda gydag aelodau

amrywiol o staff yr ysgol. Mae hwn yn rhywbeth hollol newydd i mi. Dwi wedi cael sawl cyfarfod i drafod y broses o osod graddau awgrymiedig i ddisgyblion a oedd fod i sefyll eu harholiadau TGAU a Lefel A yr haf yma yn y pynciau rwyf yn eu dysgu sef Daearyddiaeth a'r Fagoloriaeth Gymreig. Mae tipyn o bwysu a mesur wedi bod, fel y gallwch ddychmygu, a dwi'n mawr obeithio y bydd fy nisgyblion yn derbyn y graddau y maen nhw'n eu haeddu ym mis Awst. Rwyf hefyd wedi cael cyfarfodydd bugeiliol dros 'Teams' oherwydd fy rôl fel tiwtor dosbarth i flwyddyn 12. Yma rydym yn trafod lles y disgyblion ac yn bwydo nöl unrhyw bryderon sydd wedi codi o'm sgysiau ffôn personol gyda phob disgybl sydd yn fy nosbarth cofrestru. Yn sicr mae cynnal cyfarfodydd ar-lein wyneb yn wyneb â'r staff perthnasol wedi bod o fudd mawr ac wrth gwrs mae'n gyfle i sgwrsio am fywyd o ddydd i ddydd ac i drafod yr undonnedd dyddiol rydyn ni'n ei brofi ar y foment sy'n hollol wahanol i'r bywyd prysur, amrywiol yn yr ysgol.

Un agwedd ar fy mywyd gweithiol, newidiol rwyf wedi'i gweld yn dipyn o her ac i fod yn hollol onest yn un nad wyf wedi cael plaser o gwbl yn ei chyflawni, yw fy rôl fel gweithiwr allweddol yn un o hybiau'r sir yn Ysgol y Dderwen. Rydw i ac aelod arall o staff yng ngofal tua 10 o blant sy'n amrywio mewn oedran o 3 i 11 oed ac mae'r amser yn cael ei dreulio'n chwarae gemau bwrdd, peintio, chwarae gemau tu allan, ymweliad â'r goedwig sy'n lle hollol wych i'r disgyblion chwarae, dosbarthu bwyd amser te, clirio a golchi i fyny ar ôl hynny a chadw goruchwyliaeth fanwl o'r plant ar yr un pryd. Mae'n dipyn o her i sicrhau bod pellter cymdeithasol yn digwydd (er yn amhosibl ar adegau), bod digon o olchi dwylo ac i atgoffa'r plant iau i ymweld â'r tŷ bach yn ddigon aml. Yn sicr mae'r gwaith yma yn yr hwb yn hollol hanfodol ond mor wahanol i fy ngwaith o ddydd i ddydd yn Ysgol Bro Myrddin. Gwn hefyd pan fydd yr ysgol yn ailagor ar 29 Mehefin, na fydd fy ngwaith ddim byd tebyg i fel ag yr oedd gynt, ac amser a ddengys pryd fydd popeth yn dychwelyd i normalrwydd - neu'r norm newydd falle dylwn i ddweud.

HWB



**UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG
BUGEILIO CEFN GWLAD**



Oes gennych chi problem?

Codwch Ffôn Llinell Gymorth yr Elusen RABI am gymorth arbenigol

0808 281 9490

GWENAN YN COFIO AM DRIGOLION ERW HIRI



LLYTHYR GWENAN



Annwyl Breswylwyr

Hylo, fy enw i yw Gwenan. Rwyf wedi symud i Erw Hir am y tro tra bo gwaith yn cael ei wneud ar ein cartref. Rydw i wedi bod yn meddwl amdanoch ers i ni symud yno. Rwyf yn mynd i redeg o Ddydd Llun i Ddydd Gwener i Barc Myrddin ac ym mhatio'r cartref ac yn meddwl am y bobl sydd yna. Rydw i'n dod bob blwyddyn gyda phlant y Priordy i ganu i chi i gyd a mwynhau eich cwmni. Rwyf

wedi creu addurniadau lliwgar i chi gan obeithio y byddwch yn eu hoffi ac i'ch atgoffa i gadw'n saff.

Cofion cynnes

Gwenan Fflur Jones (10 oed)

XXX

Ifanc@Priordy

Helo bawb! Gobeithio eich bod yn cadw'n iach ac yn ddiogel yng nghanol yr hen gyfnod rhyfedd hwn!



Zŵmio!

Diolch unwaith eto i bawb sydd wedi troi mewn atom i'r Ysgol Sul dros Zoom! Rydym wedi cael lot o hwyl, ac mae wedi bod yn hyfryd i'ch gweld chi i gyd. Da iawn chi! Mae lluniau mewn man arall yn y papur hwn. Mwy i ddod! Diolch hefyd i griw PIP am ymuno yn y cwisiau.

Adeiladu Mega Den!

Bu cystadlu brwd ar y Mega Dens! Diolch i bawb, ac yn enwedig am y cyfraniadau hael i Tarian Cymru. Ardderchog.

Chwilair

Fedrwch chi ddod o hyd i'r geiriau yn y grid? Mae'r geiriau i gyd yn sôn am hanes y Brein Dafydd. Rhewch gynnig arni! Mae ch, dd, ff, ll, rh, th ... yn ddwy lythyren.

brodyr, bugail, bwyd, canu, cleddyf, Dafydd, dewr, eneinio, ffon, dafl, Goliath, Jesse, lladd, marw, pump carreg, rhyfel, Samuel, Saul, talcen, telynor, ymladd.



Tan y tro nesaf, cadwch yn ddiogel a chadwch mewn cyswllt. Beti-Wyn x

Menna Lloyd Williams...

ELEANOR FARJEON

Yn rhifyn mis Tachwedd 2019 o *Papur Priordy* dewis emyn Margaret Evans oedd '*Gwawriodd y bore fel y dydd cyntaf*', cyfieithiad Nantlais o emyn Eleanor Farjeon '*Morning has broken like the first morning*'. Ni chafodd yr emyn Cymraeg ei gynnwys yn *Caneuon Ffydd*, ond mae'r emyn Saesneg wedi'i gynnwys yn adran yr emynau Saesneg (rhif 882). Cyhoeddwyd yr emyn Saesneg am y tro cynta yn 1931 ac fe'i cenir ar yr alaw Aelaidd '*Bunessan*'.



Ganed **Eleanor Farjeon** yn Llundain yn 1891 i deulu diwylliedig a llengar. Treuliodd y rhan helaethaf o'i bywyd yng nghanol cylchoedd llenyddol a chreadigol Llundain ac ymysg ei ffrindiau yr oedd D H Lawrence, Walter de la Mare a Robert Frost, y bardd Americanaidd y cyfeiriodd Tudur Dylan at ei gerdd am ddewis rhwng dwy ffordd yn ei fyfyrdd ar fore Sul, 10

Mai - '*The Road Not Taken*'. Un arall o ffrindiau Eleanor Farjeon a Robert Frost oedd Edward Thomas, y bardd o dras Cymreig a laddwyd yn 39 mlwydd oed ym Mrwydr Arras yn 1917.


Cofir am Eleanor Farjeon yn bennaf fel awdur llyfrau i blant. Yn 1955 enillodd Fedal Carnegie



am ei chyfrol ***The Little Bookroom***, casgliad o'i storïau i blant gyda darluniau gan **Edward Ardizzone**.

Cyflwynir y fedal yn flynyddol i gydnabod rhagoriaeth mewn llyfr Saesneg i blant a phobl ifanc. Mae darluniau Edward Ardizzone yn cyfleu awyrgylch hudol y

storïau. Y gyfrol olaf a ddarluniodd Ardizzone cyn ei farwolaeth yn 1979 oedd *A Child's Christmas in Wales*, Dylan Thomas, ac a droswyd i'r Gymraeg gan Bryan Martin Davies, *Nadolig Plentyn yng Nghymru*. Ni chefais y cyfle i gyfarfod Edward Ardizzone, ond cefais groeso mawr gan Catherine, ei wraig yn eu bwthyn yn Rodmersham Green,



Swydd Caint, a chael cinio gyda hi yn stiwdio'r arlunydd yn yr ardd! Hefyd, yn 1956 enillodd *The Little Bookroom* wobwr Hans Christian Andersen; anrhydedd rhyngwladol a gyflwynir bob dwy flynedd gan yr 'International Board on Books for Young People' i awduron y mae eu gweithiau wedi cael dylanwad pwysig a phellgyrhaeddol ar lenyddiaeth plant. Gwrthododd Eleanor Farjeon un anrhydedd arall, sef cael ei hurddo'n Dame gan egluro 'nad oedd eisiau bod yn wahanol i'r dyn llath'. Yn 1951 trodd at y Ffydd Gatholig.

Flwyddyn ar ôl ei marwolaeth yn 1965 sefydlwyd '*The Eleanor Farjeon Award*', sy'n cydnabod cyfraniad pwysig i faes llyfrau plant gan unigolion neu sefydliad. Gall llyfrgellwyr, awduron, cyhoeddwr, athrawon, adolygwyr ac eraill sydd wedi gwneud cyfraniad eithriadol i'r maes fod yn gymwys i'w hystyried ar gyfer yr anrhydedd. Gweinyddir y wobwr gan '*The Children's Book Circle*' ac fe'i cyflwynir yn flynyddol.



Yn 1983 bu farw **Mary Vaughan Jones**, un o brif gymwynaswyr llenyddiaeth plant yng Nghymru. Roedd hi'n athrawes ysbrydoledig, a bu ei gwaith fel darlithydd coleg o werth amhrisiadwy i addysg Gymraeg, ond mae'n debyg mai ei chyfraniad mwyaf gwerthfawr, er hynny, oedd ei chyfraniad cyfoethog a chyson i faes llyfrau plant Cymru dros gyfnod o



TLWS MARY VAUGHAN JONES

ddeng mlynedd ar hugain ymron a hynny er gwaethaf brwydr boenus yn erbyn afiechyd cynyddol a chreulon. Yn sicr '*The Eleanor Farjeon Award*' oedd y catalydd pan awgrymais i bwyllgor y byddai cyflwyno tlws yn dwyn ei henw yn ffordd dda o goffáu cyfraniad Mary Vaughan Jones i faes llyfrau plant. Cyflwynir Tlws Mary Vaughan Jones gan Gyngor Llyfrau Cymru bob tair blynedd am gyfraniad nodedig i faes llyfrau plant yng Nghymru dros gyfnod o flynyddoedd. Cyflwynwyd y tlws am y tro cyntaf yn 1985.

Diolch yn fawr iawn i Menna Lloyd Williams, Waunfawr, Aberystwyth, un o ddarllenwyr selog ein Papur, am yr erthygl ddiddorol hon. Roedd Menna'n Bennaeth Adran Llyfrau Plant Cyngor Llyfrau Cymru yng Nghastell Brychan Aberystwyth cyn ymddeol.

TÎM YMRODDGAR!

Mae'r oedfaon digidol yn parhau i gyrraedd yr aelodau. Diolch i Steffan a Gareth Jones ac Elin Wyn am baratoi'r CDs bob wythnos



BYWYD NYRS YN YSTOD Y CORONOFEIRWS


Fy enw yw Eleri Wyn James ac rwyf wedi bod yn aelod yng Nghapel y Priordy er mis Tachwedd 2018. Ces i fy ngeni i lawr yr hewl yn Ysbyty'r Prior, yn ferch i'r Parchedig Llungwyn Jones a Mattie Ray (Bowen), Wern-ddu, Llangynog ac yna Fferm Cild Dewi yn Nhre Ioan.



Cafodd fy Nhad alwad i weinidogaethu yng Nghapeli Bethel, Trewyddel, Ebeneser Trefdraeth a Chapel Degwel, Llandudoch a buodd yno am dros 25 mlynedd. Yn drychinebus o drist collais fy Mami pan oeddwn yn 12 oed a Dadi o gancr yn 17 oed. Roedd fy chwaer Eirian Wyn Jones, hithau'n 20 oed ar y pryd a minne nawr yn blant digatref (gan ein bod yn byw yn y Mans) ac yn amddifad yn ifanc ofnadw. Yn ffodus i minnau cynigiodd Dai Penlan (Cyfrifydd fy Nhad) ac Olwen (Halen y ddaear i mi) gyfle i mi symud i mewn i'w cartre oedd yn galluogi Eirian i gwblhau'i hastudiaethau gradd ym Mhrifysgol Aberystwyth ar y pryd. O fewn blwyddyn a minne ond yn ddeunaw a phythefnos oed dechreuais fy hyfforddiant Nyrsio yn Ysbyty'r Waun yng Nghaerdydd. Roedd 8 Medi 1985 yn ddyddiad i'w gofio - pen-blwydd Eirian yn 21 oed a blwyddyn gwmws i'r diwrnod y bu angladd Dadi.

Fis Medi eleni byddaf wedi bod yn nyrsio am 35 mlynedd a heb ddifaru dim ar ddewis fy nhyrfa. Dechreuais fy ngyrfa fel Nyrs Gofrestredig ym 1988 yn Ysbyty Llwynhelyg ar Ward Therapi Adferiad ac yna Ward y Plant am ddwy flynedd. Rwyf wedi gweithio mewn nifer o leoliadau dros y blynyddoedd, yr hiraf ohonynt fel Nyrs Iechyd Galwedigaethol gyda Heddlu Dyfed-Powys am 17 mlynedd hyd at y llynedd.

Ar 27 Ionawr 2020 dechreuais fel Nyrs Staff yn Uned Gofal y Galon yn Ysbyty



Glangwili wedi bod allan o nyrsio ar ward er 22 mlynedd a hyn wrth gwrs ar ddechrau'r sibrydion am y feirws 'Covid-19.' Wedi pum shift yn unig yn gysgod i un o'r nyrsys profiadol roeddwn yn nyrs enwebol i nifer o gleifion ac yn setlo i mewn i rôl oedd yn fy ngwneud yn fodlon iawn fy myd. Oherwydd bod canran sylweddol o'r nyrsys wedi graddio o fewn y flwyddyn ddiwethaf teimlais yn aml eu bod yn troi ataf am gyngor oherwydd fy

mhrofiad. Dw i'n teimlo fel Anti Eleri ar y ward. Dw i'n ddigon hen i fod yn fam iddynt i gyd!! Nyrs 'hands-on' ydw i ac yn ymfalchïo yn y ffaith fy mod yn ôl yn nyrsio'n go iawn unwaith eto. Dwi'n wir yn teimlo bod Dadi a Mami wedi fy arwain yn ôl i nyrsio ar y ward i ddefnyddio fy arbenigedd a'm mhrofiad lle roedd gwir eu hangen.

Fel yr aeth yr wythnose heibio daeth y Covid-19 i'r amlwg fwyfwy a'r teimlad o bryder ar ddechre pob shift ynglyn â beth fyddai'n ein hwynebu yn ystod y dydd. Un o'r pethe anoddaf i gleifion ac i ninne fel nyrsys oedd dod ag ymweliadau teulu a ffrindie i ben, yn enwedig y cleifion hynny oedd wedi cael trawiad ar y galon neu strôc. Roedd diffyg PPE yn dod i'r amlwg yn ystod yr wythnose cynnar a'r ansicrwydd o wybod a oedd y feirws ar y claf neu beidio. Dim ond y rhai oedd yn dangos symptomau oedd yn cael eu profi am Covid-19 a'u hynysu mewn stafell ochr ar y ward. Oherwydd nad oedd cyfleusterau 'en-suite' yn ein hystafelloedd sengl roedd rhaid i'r cleifion aros yno a defnyddio potel / 'bedpan' neu 'commode.' Roedd hyn yn gallu bod yn anodd ac amhleserus i gleifion, yn enwedig y rhai ifanc -.ond am 48 awr roedd rhaid hunanynysu tan y canlyniad.



Beth ddaeth i'r amlwg rai wythnose i mewn i'r clo mawr oedd nad oedd y rheiny gyda phoen yn y frest neu'n cael rhythmau annifyr y galon yn cysylltu â'u meddyg teulu. Cawsom ryw gyfnod o bythefnos pan nad oedd un claf yn dod i'r ward gyda phroblemau'r galon ac oherwydd hyn fe'm danfonwyd ar shift nos i ward lle roedd cleifion Covid-19. Yn ystod y cyfnod cynnar hwn dim ond ffedog blastig, masg tenau a menyg oedd yr anghenraid i nyrsio cleifion Covid. Lai na phythefnos yn ddiweddarach cefais fy hun yn dechrau symptomau Covid-19 a gorfu imi aros gartre. Yn ystod yr wyth niwrnod cynta roedd fy nhymheredd rhwng 38.8°C a 41.5°C a phen a gwddf tost a gwynegon trwy'r cyhyrau i gyd. Ar ôl pedwar niwrnod gofynnodd y meddyg teulu imi fynd i'r Babell Covid yn Ysbyty Glangwili oherwydd pryder ynghylch anadlu gan fod gen i 'asthma.' Roedd angen ymholi ynglŷn â'm lefel ocsigen a chan fod hwnnw'n ddigonol cefais fy ryddhau i fynd adre ar ôl chwe awr.

Ar yr un diwrnod ron i'n cael fy mhrofi am y Covid-19. Fel nifer o brofion eraill daeth y prawf yn ôl yn negyddol. Ond o fewn awr o glywed y canlyniad cefais alwad gan y tîm meddygol Covid yn Ysbyty Glangwili a dywedwyd fod y prawf yn 'false negative' oherwydd y symptome. Allai fy symptome ddim bod yn unrhyw beth arall ond Covid-19, felly cyfnod o hunanynysu a ddilynodd. Tair wythnos a hanner o gur pen, gwynegon a blinder llwyr. Ar ôl pum wythnos cefais gynydd yn fy symptome – cur pen difrifol, gwres uchel a methu goddef gole a gorfu imi fynd nôl i'r Babell Covid i gael asesiad niwrolegol i ddileu unrhyw amheuaeth o waedlif neu lid yr ymennydd. Y neges glir a gefais ar ôl asesiad Arbenigwr yr Adran Ddamweiniau a'r Tîm Covid oedd bod angen imi orffwys....*REST! REST! REST!* . Yn y diwrnode blaenorol ron i wedi cynyddu'r hyn roeddwn yn ei wneud a hynny wedi arwain imi waethygu. Felly, dyna beth oedd rhaid i mi'i wneud am bythefnos arall cyn mynd yn ôl i'r gwaith.

Saith wythnos i'r diwrnod bûm i ffwrdd o'm gwaith a gweld ei eisie – a'r staff yn

ddifrifol. Y noson cyn dychwelyd ron i'n frwdfrydig tu hwnt i weld pawb a mynd nôl i ryw fath o 'routine.' Y sioc fwya oedd cerdded i fyny'r grisie i'r ward a theimlo'n fyr fy anadl ar ôl cerdded i fyny un llawr yn unig. Yna mynd i'r ward a chael y croeso mwya ond yn methu cael cwtsh gyda'r staff! Gwisgo masg / feisor / ffedog a menyg wrth ddelio gyda phob claf a newid menyg a ffedog rhwng pob claf oedd yn cynyddu'r gwaith a'r amser wrth fynd o glaf i glaf. Yn ystod fy amser i ffwrdd o'r ward roedd hi wedi bod yn gyfnod prysur ofnadwy i'r staff a'r bore cynta'n ôl ar y ward yw un o'r rhai mwya prysur ers imi ddechre nôl ym mis Ionawr. Prawf i'r corff a'r meddwl yn bendant.


Un peth sydd wedi newid ar y ward yw'r cyfarpar 'i-pad' sy'n galluogi clefion i siarad ar fideo â'u teulu neu eu ffrindie. Hefyd pan mae bywyd claf yn dirwyn i ben rydym yn gwahodd y teulu agos i mewn i ymweld â'u hanwyliaid yn y dyddiau olaf.

Yn anffodus beth wnaeth fy nghyfnod o salwch yn anoddach oedd y ffaith fy mod wedi colli un o'm ffrindie i'r feirws. Achubodd Undeg o Efailwen fy mywyd wedi fy ysgariad pan oedd y plant yn ifanc oherwydd buodd yn edrych ar eu hŏl wedi'r ysgol ac yn ystod gwylie ysgol. Doedd dim yn ormod i Undeg ac roedd wastad yn barod ei chymwynas. Ffrind mynwesol a cholled enfawr i'w theulu a'u ffrindie oll.

Mae'r Pandemig hwn wedi bod yn gyfnod anodd i bawb a'r gobaith sydd gyda fi yw na wela i gyfnod arall fel hwn fyth eto yn ystod fy ngyrfa. Cadwch yn ddiogel bawb a diolch am ddarllen fy nghofnod o'r misoedd dwetha yn fy mywyd fel Eleri neu Nyrs Eleri (neu Ellie i'r clefion sy'n cael trafferth ynganu fy enw!).



**COFIWCH BARHAU I GADW STAMPIAU A CHETRYS
AR GYFER EU GOSOD YN Y BLYCHAU YN Y CYNTEDD
UNWAITH Y BYDDWN YN DYCHWEL YD I'R CAPEL**



EMYN ADNABYDDUS JOHN ELLERTON

Bydd nifer ar y Sul nid yn unig yn gwylio *Dechrau Canu Dechrau Canmol* ar S4C ond hefyd *Songs of Praise* ar BBC 1 Cymru / Wales.. *Songs of Praise* yw'r rhaglen grefyddol fwyaf hirhoedlog yn y byd. Fe'i darlledwyd am y tro cyntaf o Gapel Bedyddwyr Y Tabernacl yn yr Ais yng Nghaerdydd ym mis Hydref 1961.

Emyn a fu'n boblogaidd iawn ar *Songs of Praise* dros y blynyddoedd yw *The Day though gavest, Lord, is ended* (Caneuon Ffydd: 881). Daeth yn drydydd mewn pleidlais a gynhaliwyd gan y rhaglen yn 2005 ble roedd gofyn i wylwyr bleidleisio am eu hoff emyn. **Fe'i cyfansoddwyd ym 1870, sef cant a hanner o flynyddoedd yn ôl i eleni.**

Awdur yr emyn yw **John Ellerton**, gŵr o Clerkenwell, Llundain a aned ar 16 Rhagfyr 1826. Cafodd ei ordeinio'n offeiriad yn yr Eglwys Anglicanaidd ym 1851 a bu'n gwasanaethu mewn sawl man yn Lloegr yn ystod ei yrfa. Dechreuodd gyfansoddi emynau pan oedd yn gurad hŷn yn Brighton – ar gyfer plant i gychwyn. Ym 1869, priododd â Charlotte Hart o'r dref honno a chawsant un ar ddeg o blant. Roedd yn awdur sawl cyfrol ddiwinyddol a defosiynol ond mae'n fwyaf adnabyddus fel emynyddwr a chyfansoddwr emynau. Roedd yn cael ei ystyried yn awdurdod ar emynyddiaeth. Bu farw 15 Mehefin 1893 yn Torquay yn Nyfnaint ond ni wyddys ble mae ei fedd.



Yn fuan ar ôl priodi daeth Ellerton yn ficer Crewe Green yn Swydd Gaer, heb fod yn bell o'r cyffordd rheilffordd adnabyddus. Byddai'n addysgu dosbarthiadau ar gyfer y gweithwyr yn Sefydliad Mecanyddion y cwmni rheilffordd lleol lle roedd hefyd yn gadeirydd y pwyllgor addysg. Mae'n debyg iddo gyfansoddi *The Day Thou gavest, Lord, is ended* wrth iddo gerdded yn ôl ac ymlaen i'r Sefydliad hwnnw.

Roedd hi'n arfer gyffredin yng nghyfnod Ellerton i feirdd fenthyg oddi wrth ei gilydd, yn enwedig llinellau agoriadol. Mae'n debyg fod llinell gyntaf *The day though gavest...* wedi ymddangos yn llawer cynharach ar ddechrau cerdd ddi-nod ac anadnabyddus yn *Church Poetry* (1855). Bu'r llinell yn ddigon i ysbrydoli Ellerton i greu un o'r emynau mwyaf adnabyddus a hoffus yn yr iaith Saesneg. Roedd yn fardd crefftus ac mae'r emyn hwn yn un o'i oreuon. Cyfansoddodd a chyfieithodd dros 80 o emynau i gyd.

Daeth yr emyn yn fwy poblogaidd bedair blynedd ar ôl marw Ellerton pan gafodd ei ddewis gan y Frenhines Fictoria i ddathlu'i Jiwbilî Ddiemwnt ar 20 Mehefin 1897. Bu canu mawr ar yr emyn gan gynulleidfaoedd mewn eglwys dros Brydain a'r Ymerodraeth y pryd hwnnw. Fe'i canwyd hefyd yn Seremoni Trosglwyddo Hong Kong i Weriniaeth Pobl Tsieina ym 1997.

Mae'r emyn yn diolch am dwf cymdeithas yr eglwys ar draws y byd i gyd fel na fydd llais gweddi fyth yn dawel na seiniau moliant fyth yn darfod. Mae'n dathlu'r gobaith mawr y bydd teyrnas Dduw yn sefyll ac yn ffynnu am byth. Mae'r emyn wedi'i gysylltu â Salm 113:3 '*O godiad haul hyd ei fachlud bydded enw'r Arglwydd yn foliannus*'.



Mae gan yr Eglwys Sefydledig doreth gyfoethog o emynau hwyrol. Roedd yr Hwyl Weddi'n amser i ddiolch i Dduw am oleuni a bendith y dydd ac i erfyn am seibiant a diogelwch drwy gydol y nos. Ciliodd y canu ar yr emyn wrth i wasanaethau hwyrol yr Eglwys leihau ond mae'n parhau i fod yn boblogaidd mewn angladdau.

Cyfansoddwyd y dôn St Clement (Caneuon Ffydd: 36) yn benodol ar gyfer yr emyn hwn. Caiff y gwaith ei briodoli i'r **Parchedig Clement C Scholefield** (1839-1904), curad yn Eglwys San Pedr, Kensington. Ond gan fod y melodi'n rhagori'n fawr ar unrhyw gyfansoddiad arall o eiddo Scholefield, mae yna dybiaeth ei fod wedi derbyn llawer o gymorth gan y cyfansoddwr Arthur Sullivan (rhan o'r bartneriaeth theatraidd Gilbert and Sullivan). Roedd Scholefield a Sullivan yn ffrindiau da pan oedd yr olaf yn organydd yn Eglwys San Pedr.




Mae'r emyn wedi'i drosi i'r Gymraeg (Caneuon Ffydd:45) gan Robert David Roberts (1912-1993), brodor o Benisa'r-waun yng Ngwynedd a gymhwysodd yn offeiriad gyda'r Eglwys. Roedd yn fardd dawnus a chanddo ddiddordeb mawr yn hanes a tharddiad yr Eglwys. Ysgrifennodd *Clynog, the Saint and his Church* (1954). A dyma ddyfynnu pennill olaf yr emyn, yn y ddwy iaith i orffen. Mae'r pennill hwn yn cyfleu gweledigaeth glir o deyrnasiad cyflawn Duw o oes i oes:



Dy orsedd, Arglwydd Dduw, a bery
pan syrh gorseddau byd a'u bri;
fe saif dy deyrnas a chynyddu
nes delo pawb i'w haddef hi,



So be it, Lord: thy throne shall never,
Like earth's proud empires, pass away;
Thy kingdom stands, and grows for ever,
Till all thy creatures own thy sway.



**Cyfrol newydd
Geraint Roberts**




Barddas: £7.95

**LLYFR GWYRDD YSTWYTH
Eurig Salisbury**

**Ail gyfrol o gerddi'r bardd a'r
ysgolhaig poblogaidd**

Barddas £8.95



CYFRI'N CEWRI: HANES MAWRION EIN MATHEMATEG

PRIF NEGES Cyfri'n Cewri, llyfr newydd gan Gareth Ffowc Roberts, yw bod mathemateg yn rhan annatod o'n hanes a'n diwylliant. Yn y llyfr hwn mae Gareth yn dilyn hanes dwsin o fathemategwyr o wahanol rannau o Gymru. Anelir y llyfr at gynulleidfa eang: rhai sy'n astudio mathemateg mewn ysgol neu goleg a phawb sydd eisiau dysgu am waith mathemategwyr nodedig Cymru ac am fanylion eu hanesion brith. Yma mae'n crynhoi hanes un o'r mathemategwyr hyn a aned yng Nghaerfyrddin ac a fu'n destun

sgwrs ganddo i Gymdeithas Ddiwylliannol Priordy yn 2015:

Ymysg y mathemategwyr o Gymru a restrir ar gronfa ddata Prifysgol St Andrews, cronfa sy'n cwmpasu holl fathemategwyr enwog y byd, un yn unig sy'n ferch, sef **Mary Wynne Warner (née Davies)** a aned yng Nghilgant Myrddin, Caerfyrddin yn 1932.

Roedd Mary yn un o ddwy o ferched Sydney ac Esther Davies. Roedd Sydney Davies yn athro mathemateg yn yr ysgol ramadeg i fechgyn (Queen Elizabeth Grammar School for Boys) ganllath o'r tŷ. Cafodd Mary ei haddysg gynnar yn y dref cyn i'r teulu symud i Lanymddyfri ar benodiad ei thad yn brifathro'r ysgol ramadeg yno, a symud wedyn i Dreffynnon, Sir y Fflint pan benodwyd Sydney Davies yn brifathro yno. Roeddwn yn ddisgybl yn ysgol Sydney Davies yn Nhreffynnon ac yn dyst i ddyfnder ei allu ac ehangder ei wybodaeth ond hefyd i greulondeb ei ddisgyblaeth: gallai godi ofn a dychryn ar ddisgybl, athro a rhiant fel ei gilydd. Does ryfedd felly i rieni Mary benderfynu na fyddai'n ddoeth iddi fod yn ddisgybl yn ysgol ei thad a threfnwyd iddi astudio lefel A yn Ysgol Howell, Dinbych. Disgleiriodd yn ei gwaith ar fathemateg ac enillodd ysgoloriaeth i Goleg Somerville, Rhydychen. Enillodd ei gradd yno yn



1951 ac aeth ymlaen i gychwyn ar waith ymchwil mewn mathemateg. Yn Rhydychen cyfarfu â Gerald (Gerry) Warner a oedd yn astudio hanes yno. Priododd y ddau yn 1956. Mae hanes Mary Warner yn un arwrol, a rhaid ei ddeall yng nghyd-destun brwydr merched i gyrraedd y brig mewn mathemateg. Enillodd rhai menywod yr hawl i bleidleisio yn 1918 ond parhaodd y rhagfarn yn eu herbyn ym maes addysg, yn arbennig yn y gwyddorau, ymhell wedi hynny.

Yn fuan wedi i Mary a Gerry briodi penodwyd Gerry, a oedd erbyn hynny'n gweithio yng ngwasanaeth cudd-ymchwil y llywodraeth (MI6 i bob pwrpas), i swydd yn y Llysgenhadaeth Brydeinig yn Beijing. Dilynwyd hynny gan gyfres o benodiadau yn Burma, Gwlad Pwyl, y Swistir a Malaysia. Er bod ganddi ddyletswydd i gefnogi ei gŵr ni phallodd gwaith ymchwil Mary mewn mathemateg ac roedd yn barod bob tro i herio rhagdybiaethau diwylliannol a oedd mor aml yn ceisio cau'r drws arni fel mathemategwraig.

Ar ymddeoliad Gerry Warner, ac yntau wedi'i ddyrchafu'n farchog am ei wasanaeth yn MI6, symudodd y ddau yn ôl i Brydain yn 1991, a phenodwyd Mary Warner i Gadair mewn mathemateg yn City, Prifysgol Llundain, gan barhau i gyhoeddi'n helaeth hyd at ei hymddeoliad yn 1996 ac wedi hynny. Rhoddodd gryn bwysigrwydd hefyd ar ei gwaith darlithio yn y brifysgol yn ogystal â bod yn diwtor i nifer o fyfyrwyr ymchwil, gan gynnwys nifer o dramor, ac enillodd barch ac edmygedd eang.

Ni phallodd creadigrwydd mathemategol Mary Warner ac, yn wahanol i'r patrwm mwy arferol ymhlith mathemategwyr, cyflawnodd ei gwaith gorau yn ystod ei blynnyddoedd olaf.

Nod Mary Warner yn ei mathemateg oedd manylu ar anfanyldeb, sef, yn ei geiriau hi ei hun, *'to make precise the property of imprecision'*. Tua diwedd ei gyrfa gwnaeth gyfraniad sylweddol i'r maes hwn, ac mae'r syniadau sydd wedi dilyn ohono yn cael eu defnyddio i ddatrys problemau ymarferol mewn meysydd sydd, yn eu hanfod, yn ymwneud ag amhendantwrwydd, problemau fel rhagweld diffygion mewn adweithyddion niwclear a rhagweld daeargrynfeydd.

Wedi iddi ymddeol o City, a'i hiechyd wedi torri ryw ychydig, parhaodd i weithio ar ei mathemateg gan fynychu cynadleddau ar draws y byd. Torrwyd ar ei chynlluniau, fodd bynnag, a bu farw'n dawel yn ei chwsg yn 1998 wrth ymweld â ffrindiau yn Sbaen. Fe'i claddwyd ym mynwent

eglwys Kennerton, swydd Gaerloyw, wrth ymyl ei rhieni a dau o'i phlant.


Enillodd Mary Warner fri rhyngwladol ond nid oedd yr enwogrwydd hwnnw heb ei sialens ychwaith. Ar un achlysur derbyniodd yr Athro Warner wahoddiad i annerch cynhadledd ym mhrifysgol Bahrain. Penderfynodd Syr Gerry deithio i'r gynhadledd gyda Mary. Dyma ei atgofion o'r hanes:


We were met at the plane by one of Mary's junior hosts, and taken to stay with one of my colleagues. Shortly after we had settled in I was called to the phone. It was our host, who told me that he understood that Professor Warner was a woman. I confirmed that was the case. He said that this would be difficult, for she would be lecturing to male students, and meeting male colleagues. Would she mind if she was categorised as an 'honorary man'? I naturally consulted Mary, [who] said she would have no objection. The visit passed off very pleasantly. Our final lunch was in the male quarters of our host's house. At the end of the meal I became an 'honorary woman', and was introduced to his wife and family in the female rooms.

Daeth Syr Gerry i'r casgliad: *'the occasion could only have involved a lady academic, and exemplified in a benign way the peculiarities of being a comparatively early bird as a lady mathematician'.*

Mewn cyfnod cythryblus o dynnu cofebion, mae Mary Wynne Warner yn sicr o fod yn haeddu lle yn oriel anfarwoliau ein mathemategwyr, yn arbennig yng Nghaerfyrddin.

Diolch i'r Dr Gareth am yr erthygl hynod o ddiddorol hon. Mae'r Dr Gareth yn Athro Emeritws mewn Addysg ym Mhrifysgol Bangor. Mae wedi cyhoeddi'n helaeth ac yn adnabyddus am osod posau mathemategol ar Radio Cymru a Thrydar. Fe hefyd yw Ysgrifennydd Capel Emaus, Bangor. Ond yn bwysicach i ni yn y Priordy mae'n dad i Llinos ac yn daid i Miriam Elen, Olwen Lois a Gwydion Prys!. Pob dymuniad da iddo gyda'i gyfrol newydd – mae'r manylion fel a ganlyn:





Cyfri'n Cewri **Hanes Mawrion ein Mathemateg**

Gareth Ffowc Roberts
Gorffennaf 2020



GWASG PRIFYSGOL CYMRU
UNIVERSITY OF WALES PRESS

'Gwych oedd cael f'atgoffa gan y gyfrol ryfeddol yma fod mathemateg yn perthyn i ni i gyd ac yn rhan o'n hanes cenedlaethol. A gwych hefyd ydi gweld yr awdur ar ei orau yn gwneud mathemateg yn berthnasol, hygyrch a hynod ddiddorol hyd yn oed i glown fel fi.'

Tudur Owen, comediwr a darlledwr

'Clamp o gyfrol ddifyr sy'n goglais ein diddordeb mewn pobl a byd prydferth mathemateg fel ei gilydd. Dyma stori'r Cymry a mathemateg, ac ry'n ni i gyd yn rhan o'r hafaliad. Wele ryfeddod y rhifau a'u rhin.'

Elinor Wyn Reynolds

GOLHIRO'R GYMANFA

Mae Swyddogion Pwyllgor Gŵyl Mawl Medi wedi penderfynu gohirio'r Gymanfa Ganu i'w chynnal yng Nghapel Penygraig ar Nos Sul 27 Medi 2020 tan y flwyddyn nesaf gan nad yw'n edrych yn debygol y bydd ein capeli'n ailagor am fisoedd.

Y dyddiad newydd yw

Nos Sul, 26 Medi 2021 am 5 o'r gloch – Capel Penygraig
Arweinydd

Meinir Richards

Y bwriad yw defnyddio Rhaglenni 2019-20

Y TYST

newyddion da yn ystod y clo mawr!
50c y rhifyn! Cysyllter â Sulwyn Thomas



LLETYGARWCH A'R MEUDWYO MAWR

Mae pryder mawr am effaith Covid-19 ar y diwydiant lletygarwch ac arlwyio yng Nghymru'r dyddiau hyn. Fel y gwyddom, mae'r diwydiant yn cyfrannu'n helaeth i economi'n gwlad ac yn cyflogi cymaint o bobl. Yn ddigon naturiol, mae llai o ymwelwyr a theithwyr yn mynd o le i le oherwydd y cyfyngiadau presennol a llai o alw felly am lety dros nos neu am gyfnod hwy. Does dim mynd ychwaith ar ddathliadau fel priodasau a chynadleddau sy'n golygu fod gwystai a bwytai mawr a bach yn dioddef ac ar eu colled.

Pâr sy'n cadw gwesty bach yn ein tref yw Gwynn ac Ann Bowyer. A dyma ofyn ychydig o gwestiynau i Gwynn am y sefyllfa ar hyn o bryd.



PP: I ddechrau Gwynn, ers pryd rydych chi'n cynnal gwesty Y Dderwen Fach yn Heol y Prior?

GB: Wel, buon ni'n paratoi am flwyddyn cyn agor y gwesty i groesawu ymwelwyr - a hynny ym 1989. Dechreuon ni gydag un ymwelydd ond llwyddon ni i gynyddu a dod yn weddol llwyddiannus.

PP: Er bod y gwesty wedi'i addasu ar gyfer anghenion y ganrif hon mae hen hen hanes i'r adeilad ei hun, on'd oes?

GB: Oes wir. Adeiladwyd y tŷ'n wreiddiol i mewn i'r mur Rhufeinig ac felly roedd yn rhan o'r mynediad i'r Gaer gyda drws mawr ar draws Heol y Prior, sef y Lôn Rufeinig allan o'r Gaer tua'r gogledd. Oherwydd bod cefn y tŷ'n tyrchu i mewn i'r mur rhaid dringo grisiau i fynd allan i'r ardd sydd ar ben sylfeini'r hen fur. Mae rhan o'r tŷ wedi'i hadeiladu yn yr ail ganrif ar bymtheg.

PP: Mae'n siŵr eich bod wedi croesawu ymwelwyr o bob rhan o'r byd dros y blynyddoedd.

GB: Pleser pur yw croesawu ymwelwyr o bob gwlad yn yr Undeb Ewropeaidd a hefyd o India, y Dwyrain Canol a Tsieina. Mae'n rhoi mwynhad mawr i ni.

PP: Oes ambell ymwelydd yn aros yn y cof?

GB: Oes nifer – ond neb mor annisgwyl â dyn trawsrywiol yn dod i lawr i frecwast wedi gwisgo fel merch. Diddorol!

PP: Ydy ‘brecwast llawn’ yn dal yn boblogaidd y dyddiau hyn pan fo cymaint o fri ar fwyta’n iach, tybed?!

GB: Na, tuedd pobl yw bwyta llai os ydyn nhw’n gweithio yn y cylch. Pobl ar wyliau sy’n fwy tebygol o fwyta mwy.



PP: Daeth ychydig o arallgyfeirio yn hanes Y Dderwen Fach ryw dair blynedd yn ôl, Gwyn. Allwch chi esbonio’n fyr i ni?

GB: Wel, daeth cais o Ysbyty Athrofaol Caerdydd yn gofyn a fydden ni’n barod i dderbyn myfyrwyr i aros gyda ni am tua phedair wythnos ar y tro er mwyn iddyn nhw gael profiad gwaith yn Ysbyty Glangwili. Roedd hyn yn fendith i Ann - newid gwelyau unwaith yr wythnos!



PP: Wel, Gwyn, daeth tro ar fyd yn ddiweddar yn eich hanes chi ac eraill o ganlyniad i’r feirws. Sut mae’r pandemig wedi’ch taro chi ac eraill y y dref?

GB: Rhaid oedd cau fel pawb arall a disgwyl i bethau wella. Ond braf ydi cael codi’n hwyr yn y bore - profiad hyfryd!

PP: I gloi, efallai y gallwn ofyn i chi fentro darogan ychydig Gwynn – sut ydych chi’n gweld pethau yn hanes gwestai yma yng Nghaerfyrddin a thu hwnt yn y dyfodol?

GB: Dw i’n rhagweld y bydd gwestai mawr yn agor gyntaf gyda hanner yr ystafelloedd gwely ar agor a’r lleill ar gau. Yna, bydd ymwelwyr yn aros yn y rhai oedd wedi’u cadw’n wag tra bo cwmni glanhau dwfn yn diheintio’r rhai a ddefnyddiwyd. Gwestai bach fel ein lle ni fydd yr olaf i agor yn ddiogel gan mai anodd fydd i ni dalu am gwmni proffesiynol i ddod i lanhau ar ôl pob ymwelydd. Ond os daw brechiad llwyddiannus i’n diogelu, fodd bynnag, yna gallwn ailagor. Mae’r busnes yn help i’n cadw ni’n ifanc ac yn heini!



Diolch yn fawr iawn Gwynn am ateb y cwestiynau a gobeithio y daw dyddiau gwell i’r ddau ohonoch cyn bo hir iawn!.

Y Goeden Dderw

CERDDAF heibio'r goeden yma'n ddyddiol wrth fynd â'r ci am dro. Edrychaf arni a synnu pa mor rhyfeddol yw byd natur. Yn y gaeaf mae'r boncyff a'r canghennau'n noeth a llwm ac yn edrych fel sgerbwd heb fywyd o gwbl. Ond pan ddaw'r



gwanwyn daw blagur hudol ar hyd rhai o'r canghennau ac yna ddail gwyrdd adnabyddus y dderwen. Daw ambell frân i eistedd ar y canghennau agored ar frig y goeden. Gwyliaf hi'n newid drwy'r tymhorau a phob tywydd. Edmygaf mor dalsyth ac urddasol yw hi a meddyliaf amdani fel symbol o fywyd – byw a marw, amser da ac amser anodd, hapusrwydd a thristwch.



Hapusrwydd a Siom

Dyw bywyd bob dydd ddim yn hawdd. Mae sialensau mewn bywyd. Ambell waith bydd pethau'n mynd ein ffordd ni a byddwn yn teimlo'n hapus. Weithiau byddwn yn cael ein siomi a bydd tristwch yn dilyn. Diolch byth fod y cydbwysedd yn pwysu'n drymach ar ochr hapusrwydd. Ond i rai mae bywyd yn anodd iawn a gall y tristwch arwain at iselder ysbryd a methu â gweld golau ar bendraw'r twnel.



Rydym yn byw mewn amser rhyfedd iawn ar y funud dan amgylchiadau Covid 19. Lledodd yr haint yma dros y byd yn gyflym iawn fel ton fawr frawychus, mor newydd fel nad yw'r gwyddonwyr a'r meddygon yn gwybod y ffordd i'w diagnosio na'i thrin. Parodd hyn ofid mawr i bawb a hala pobl i ystyried eu ffordd o fyw, realiti bywyd, pwysigrwydd teulu, cartref, aelwyd a'u cymdogaeth. Gwnaeth i ni hefyd fod yn fwy ymwybodol o'n marwolaeth ni ein hunan. Mae bywyd yn werthfawr.



Technoleg

Mae'r amser hwn o ynysu a chwariantin yn cael effaith ar drefn ein bywyd - methu â mynd i'r gwaith, cymysgu â gweddill ein teulu a'n ffrindiau a methu â chymdeithasu, a hyn yn effeithio ar y ffordd rydyn ni'n mwynhau bywyd. Diolch am

dechnoleg gwybodaeth sydd wedi agor drysau i ffyrdd newydd o gysylltu â'n gilydd. Dw i ddim yn gwybod amdano chi ond rwy wedi dysgu llawer a gweld mwy ar fy ffrindiau coleg yn y tri mis dwethaf nag ers blynnyddoedd. Mae Beti-Wyn wedi cael blas ar y dechnoleg ac yn cynhyrchu oedfa fendigedig bob dydd Sul, gan gynnwys aelodau eglwysï'r ofalaeth hefyd. Mae'n cael hwyl a llawer o 'stress' yn y Zoom Ysgol Sul! Rwy'n siŵr fod y paned a sgwrs yn codi calon llawer o'r aelodau hefyd (yn anffodus rwy'n gweithio ac yn methu ag ymuno).



Byd natur

Dros y misoedd diwethaf rwy wedi cymryd mwy o sylw o fyd natur o'm cwmpas wrth gerdded y ci. Sylwi ar yr amrywiaeth gwych o goed sydd yn y cloddiau a'r ffrwythau hynod maent yn eu cynhyrchu. Gwelaf afalau derw, coeden ddamson, coeden geirios, cnau cyll a bydd digon o fwyar eleni - mae'r cloddiau'n llawn llwyni mieri. Hedfana sawl barcud coch dros fy mhen, a gallaf aros yno am amser yn rhyfeddu at eu harddwch a pha mor osgeiddig ydynt. Sylwaf ar y blodau yn y cloddiau ac wrth ochr yr heol, a gwrando'n astud ar yr adar yn canu a cheisio'u gweld wrth iddynt guddio ym mrigau'r coed. Eisteddaf wrth yr afon tra bo'r ci'n mwynhau wrth ymdrochi. Gwrandawaf ar y dŵr yn tincian dros y cerrig a gweld pelydrau'r haul yn adlewyrchu ar y coed a'r dail o'r dŵr. Mae'r ci gen i ers saith mlynedd ond dyma'r tro cyntaf i fi dalu sylw a bod mor ymwybodol o harddwch natur o'm cwmpas. Rhaid imi ddweud fy mod yn teimlo bod y byd wedi arafu a dw i ddim yn rhuthro i bobman gan milltir yr awr rhagor.

Fel rwy'n siŵr eich bod yn gwybod treuliais dros chwarter canrif fel meddyg teulu ac rwy nawr yn feddyg arbenigol yn y maes gofal lliniarol. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn credu mai gofal am bobl sy'n dod i ddiwedd eu bywyd, sydd ar fin marw, yw gofal lliniarol. Ond cynnig gofal sy'n mynd i wella ansawdd bywyd cleifion a'u teulu wrth iddynt wynebu salwch sy'n cyfyngu ar eu bywyd yw e. Helpu i ryddhau dioddefaint drwy drin symptomau a chynnig cefnogaeth seicolegol, cymdeithasol ac ysbrydol fel eu bod yn gallu byw'r bywyd gorau a allant. Cefnogi'r cleifion i siarad am beth sy'n bwysig iddynt a rhannu hyn gyda'u teuluoedd a'u helpu i gyflawni eu gôl, ond rhaid bod yn realistig. Yr hyn sy'n bwysig yw cynnig gofal cyfannol, tosturiol i'r claf a'r teulu, a'r anrhydedd o gael edrych ar eu hól ar amser bregus iawn o'u bywyd. Mae gofal lliniarol yn rhan bwysig iawn o waith meddygon teulu hefyd, yn enwedig mewn ardal wledig fel hon, lle mae

nhw'n aml yn adnabod y teulu, Dywedodd Dame Cecily Saunders, sylfaenydd y mudiad hosbis fodern “ *We will do all we can not only to help you die peacefully but also to help you live until you die*”. Daw'r goeden i'm meddwl yn symbol o'm gwaith, y bywyd yn y canghennau deiliog gwyrdd ochr yn ochr â'r boncyff noeth yn farw.

Gall pethau eraill hefyd fel salwch, damwain neu siom effeithio ar gynllun ein bywyd a'r dyfodol sydd gennym mewn golwg. Mae hyn yn gallu bod fel profedigaeth a galaru am fywyd nad yw'n bosib rhagor. Gall fod yn ddinistriol, trawmatig ac emosiynol iawn. Rhaid anelu at drywydd newydd a chwilio am ddrysau eraill i'w hagor ac ailasesu'r dyfodol. Dilyn llwybr neu gangen arall i gyrraedd uchelgais newydd. Bydd eisiau cefnogaeth gref a sefydlogrwydd yn debyg i'r asgwrn cefn mae'r boncyff yn ei gynnig i gynnal y canghennau.

Y goeden

Pan fydd coeden yn tyfu o hedyn bydd sialensau o'i blaen. Rhaid cael yr amodau iawn, tir ffrwythlon, tywydd addas, digon o haul a glaw a llonydd nes ei bod yn tyfu ac aeddfedu'n ddigon cryf i aros ar ei thraed ei hun.

Anodd iawn oedd dyfodiad Iesu Grist i'n byd. Cafodd ei eni mewn stabl gan nad oedd lle yn y llety, a wedyn bu'n rhaid i'r teulu ddianc am fod Herod eisiau ei ladd. Treuliodd ei fywyd yn ein dysgu am Dduw drwy ddweud storïau, damhegion a gwneud gwyर्थiau. Yn aml byddai'n defnyddio byd natur fel esiamplau yn ei fyfyrddod. Cafodd anawsterau trwy'i fywyd ond gwyddai fod gan Dduw, ei Dad, gynllun iddo. Gwyddai y byddai'n cael ei aberthu drwy farw i faddau ein pechodau. Saif y goeden yn unsyth i'n hatgoffa o'r groes, a'r gangen ddeiliog yn symbol o'r atgyfodiad ar y trydydd dydd. Bywyd newydd a arweiniodd at eni'r Eglwys Fore.

GYDA THRISTWCH, wrth i mi edrych yn ôl ar luniau'r goeden a dynnais y llynedd, sylwais fod llawer mwy o'r brigau'n wyrdd a llawn dail. Gobeithio bod y goeden yn ymateb i'r cyfnod anodd rhy'n ni'n byw ynddo nawr gyda Covid 19, ac y bydd y flwyddyn nesaf yn llawn dail eto. Falle bod dyfodol newydd gwahanol o'n blaen ninnau i gyd hefyd. Daw eto haul ar fryn.




©@mwm, redbreast

ENGHREIFFTIAU DIWEDDAR O WAITH EIN PLANT YN DILYN YSGOL SUL AR ZOOM



Dewch ar fy ôl i ac fe'ch gwnaif yn bysgotwyr pobl.



ENGHREIFFTIAU DIWEDDAR O WAITH EIN PLANT YN DILYN YSGOL SUL AR ZOOM



ATEBION CWIS DYFED A GWYBODAETH BELLACH

1	Capel Sul Cydweli.
2	Roedd Pafiliwn Eisteddfod Genedlaethol 1867 ar safle presennol Eglwys Sant Ioan wrth Y Rhodfa a Heol y Prior. Fe gawson nhw dywydd gwlyb iawn.
3	Ar wal adeilad 'D. King Morgan & Son Chemists' yn Heol y Brenin
4	William Spurrell (1813-89). Mae cofeb las yn nodi lleoliad ei argraffdy o flaen 37 Heol y Brenin, Caerfyrddin.
5	Elfed oedd yr hynaf o 11 o blant 'Y Gangell'.
6	Bu Evan Williams farw yn 145 oed yn Nhloty Caerfyrddin. Mae'r ffaith hon i'w gweld yn 'Bailey's Records of Longevity'.
7	Mae 'Bull Lane' yn arwain o Heol Las i Heol y Cei, a 'Conduit Lane' o Heol Spillman i Heol y Brenin yn nhref Caerfyrddin.
9	Ym mynwent Capel Cana, Bancyfelin
9	Syrthiodd rhan o'r hen adeilad a lladd dau o'r gweithwyr, Evan Edwards ac Evan Jones. Codwyd y capel gwreiddiol ym 1798.
10	Yn Abergwili

Sut gwnaethoch chi
tybed?



Diolch i Peter am y cwestiynau – a'r atebion!!

Y DIWEDDAR VERNON JONES

Bu farw Vernon Jones yn ddisymwyth ar 11 Mehefin 2020 tra oedd wrth ei waith gartref ar fferm Y Pant, Llangynnwr. Roedd yn 92 oed.

Ganwyd yntau, ei frodyr a'i chwaer ar Fferm Llwynceilyn, Llanpumsaint. Roedd capel ac Ysgol Sul a cherddoriaeth yn ganolog i fywyd y teulu. Bu Vernon ei hun yn organydd a'i ddau frawd yn codi canu yn eu gwahanol eglwysi - Elfed yng Nghana, ac Aeron yn Ffynnon Bedr. Mae Mair (Walker), ei chwaer, yn annwyl iawn i ni yn Y Priordy.

Priodwyd Vernon ac Elvira yn Y Priordy ym 1953 gan ymgartrefu yn Fferm y Banc, Spittal am gyfnod ac yna Pentrehydd, Heol y Coleg cyn setlo ym Mryn Coed Llangynnwr ac arallgyfeirio am 35 mlynedd a chanolbwyntio ar adnewyddu tai a chynnal busnes lletya myfyrwyr yn Abertawe, gan symud i fyw i Fferm y Pant yn y cyfamser ac ailgydio mewn godro am 45 mlynedd.

Person annibynnol a phreifat oedd Vernon Jones, ond yn weithiwr diwyd ar fferm, yn yr ardd, ac yn ddiweddarach wrth ddatblygu maes carafanau llwyddiannus iawn ar dir y fferm.

Cynhaliwyd oedfa breifat, yn ôl cyfyngiadau'r cyfnod hwn, yn Amlogfa Parc Gwyn ar 25 Mehefin 2020 i ddiolch i Dduw am ei fywyd a'i waith. Gwasanaethwyd gan ei weinidog.

Diolchwn am ei fywyd, ac estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Wynne, ei fab, a Linet ei ferch, yr wyron a'r wyresau yr oedd mor falch ohonynt a'r cysylltiadau teuluol eraill i gyd. Cofiwn hefyd am Mair, ei chwaer, nad oedd fel nifer o aelodau eraill y teulu'n medru bod yn bresennol yn yr angladd - ond diolch i dechnoleg fodern darlledwyd yr angladd yn fyw dros y we o'r Amlogfa.

Ein Gweinidog



MEDDYLIWN am Eira Phillips sydd yn Ysbyty Glangwili ar hyn o bryd. Dymunwn yn dda iddi hithau a phawb sy'n anhwylyd ac yn hunanynysu'r dyddiau hyn. Ein cofion cynhesaf atynt i gyd.

Mae'r tymor pêl-droed yn lleol wedi dod i ben yn gynt nag arfer oherwydd y pandemig ond da gweld bod Sêr Caerfyrddin Dan 13 yn dal i befrïo er gwaethaf pawb a phopeth. Maent wedi gorffen y tymor yn ddiguro gan ennill pencampwriaeth eu cynghrair. Llongyfarchiadau mawr i Gwion Jones a Gruffudd Owen, aelodau o'r garfan.

Rydyn ni'n parhau i weld wynebau cyfarwydd ar yr **Oedfa a Dechrau Canu Dechrau Canmol** ar **S4C** pan ddaw'r canu cynulleidfaol o'r Priordy a San Pedr! Da iawn!

Llongyfarchiadau mawr i Catrin Owen ar gael ei hethol yn ddirprwy brif ferch Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin. Anwen Thomas ei chyfnither yw'r brif ferch (ŵyres Eifion a Carwen Howells, Capel Bancyfelin) a Lowri Powell, un o ffyddloniaid Cana yw'r ail ddirprwy brif ferch. Clod mawr i eglwysi'r Ofalaeth felly!

Yn Rownd yr Wyth Olaf ar **Y Talwrn** ar **Radio Cymru** bu Tir Iarll, yn cynnwys Tudur Dylan Jones, yn herio'r Tir Mawr am le yn y rownd gynderfynol. Dyma'r tro cyntaf i'r ddau dîm gwrdd â'i gilydd ar y Talwrn a Tir Iarll a orfu!



Bydd mis Awst yn un rhyfedd i lawer y tro hwn, heb yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron ond o leiaf bydd Eisteddfod AmGen ar lein yn lle hynny, gan roi cyfle i ni gymryd rhan a gwylio cystadlaethau a gweithgareddau amrywiol. Mae hyn yn gam i ddiogelu'r celfyddydau a'n ffordd o fyw sydd dan orthrwm y dyddiau hyn oherwydd y clefyd, fel yr esboniodd Carys Edwards un diwrnod ar **Prynhawn Da** ar **S4C** wrth grisialu prif straeon y Wasg.

I GLOI, llongyfarchiadau gwresog iawn i Elin Wyn ar ennill Gradd BA mewn Diwinyddiaeth a Chrefydd o Brifysgol Birmingham. Newyddion ardderchog a phob dymuniad da i'r dyfodol oddi wrth bawb ohonom.

Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Medi i'n
Gweinidog ☎ 01267 237696 neu Alun Charles ☎ 01267 236037

CYDYMDEIMLAD

Rydym yn cydymdeimlo â Mair Lewis a'r teulu ar golli chwaer yng nghyfraith Mair, sef Eluned Lewis, gynt o Benrhiw-llan, ar 6 Mehefin 2020. Roedd ei diweddar ŵr, David Lewis, yn frawd i'r diweddar Tom Lewis, Diacon a Thrysorydd am flynyddoedd yn y Priordy.
Meddylwn am y cysylltiadau i gyd.

DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn, Dr Gareth Roberts, Dr Angharad Wyn, Gwenan Jones, Tudur Dylan Jones, Siân Axford a Catrin Wyn Davies a nifer o deuluoedd am y lluniau'r mis hwn.



YN DYMUNO NODDI PAPUR PRIORDY?

Cyswllt
PHILIP JONES
Trysorydd

☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk

CYNLLUN FFONIO FFRIND MERCHED Y WAWR

Mae'r Mudiad wedi lansio cynllun i annog pobl i ffonio ffrind. Felly, os ydych chi'n gwybod am rywun sy'n unig, wrth ei hunan neu sydd eisiau sgwrs yn ystod y cyfnod anodd ac ansicr hwn, cofiwch godi'r ffôn - mae'n golygu llawer i'r bobl hyn! Mae croeso i unrhyw un gysylltu hefyd â'r rhif ffôn isod, os ydych eisiau sgwrs!



☎ 01970 611 661



GWEITHGARWCH YR YSGOL SUL

Diolch yn fawr iawn i'n Gweinidog sy'n cynnal Ysgol Sul yn rheolaidd dros Zoom.

Mae'r plant hefyd yn ddiwyd yn gwneud gwaith dilynol fel y gwelwch yn y Papur hwn.

A dyma enghraifft arall sydd newydd ddod i law, sef Cerdyn Help Llaw ar ôl trafod Y Samariad Trugarog.



COVID-19



Gair byr i ddweud bod ein Gweinidog a Swyddogion yr Ofalaeth mewn cyswllt rheolaidd â'i gilydd ac yn monitro'n ofalus unrhyw ddatblygiadau parthed sefyllfa'r Capeli a Covid-19. Mae'r Gweinidog hefyd mewn trafodaethau rheolaidd gydag Undeb yr Annibynwyr.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi mewn da bryd am unrhyw ddatblygiadau drwy gyfrwng Tudalennau Gweplyfr y Priordy a Thrydar ac ati

Cyfarfod Diaconiaid a Blaenoriaid yr Ofalaeth Nos Fawrth, 7 Gorffennaf am 7 dros Zoom.

Anogir pawb i wneud pob ymdrech i ymuno â ni. Os nad ydych yn hyderus i ddefnyddio Zoom rhowch wybod i'r Gweinidog o flaen llaw. Fe fydd cofnodion y cyfarfod yn cael eu hanfon at bawb

